YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

PLWYF DEWI SANT, CAERDYDD
THE PARISH OF DEWI SANT, CARDIFF

7 Awst 2020

(English below)

I sylw'r Plwyfolion

Ailagor yr Eglwys ar gyfer Addoli Cyhoeddus yn ystod cyfnod o ymbellhau cymdeithasol.

Annwyl Gyfeillion,

Yr wyf yn falch o gyhoeddi ein bod wedi derbyn caniatâd yr Archddiacon i ailagor yr eglwys a dechrau cynnal gwasanaethau eto. Cynhelir y gwasanaeth cyntaf dydd Sul 9 Awst i aelodau'r Cyngor Plwyfol Eglwysig yn unig er mwyn sicrhau bod ein canllawiau yn gymwys ac yn ddiogel cyn cynnal ein gwasanaeth cyhoeddus cyntaf **dydd Sul 16 Awst**. Fe wyddoch fod canllawiau a chyfarwyddiadau manwl i'w dilyn er mwyn ein galluogi i gynnal gwasanaethau unwaith eto. Yr ydym felly wedi llunio cynllun er mwyn croesawu addolwyr yn ôl i'r eglwys. Maent fel a ganlyn:

Yn ystod y cyfnod hwn o ymbellhau cymdeithasol y prif wasanaethau ar y Sul fydd y podlediadau. Felly peidiwch â theimlo eich bod o dan unrhyw bwysau i ddod i'r eglwys, na theimlo unrhyw euogrwydd os ydych yn penderfynu aros adre ar y Sul. Os ydych wedi cael eich cynghori i hunan-ynysu, os oes gennych symptomau annwyd neu os ydych yn teimlo'n anhwylus, gofynnaf yn garedig i chi aros adre. Eich iechyd chi ac iechyd eich teulu sy'n dod gyntaf (gweler fy llythyr yn rhifyn cyfredol Cloch Dewi). Nid yw'r coronafeirws wedi diflannu, ac fel eglwys ni allwn ddileu y risg yn gyfan gwbl. Bydd angen i chi **bwyso a mesur yn ofalus** a yw'n addas i chi ddod i wasanaeth yn yr eglwys neu beidio.

Mae hi bellach yn gyfreithlon i gynnal gwasanaethau yn yr eglwys o dan gyfyngiadau llym a osodir gan Lywodraeth Cymru a'r Eglwys yng Nghymru, ac mae'n bwysig i bawb sy'n dod i'r eglwys lynu wrth y canllawiau hyn. Bydd y profiad o addoli yn yr eglwys yn brofiad gwahanol iawn i'r arfer.

Cynhelir **un gwasanaeth am 9.00** ar fore Sul. Mae dau reswm dros newid yr amser. Yn gyntaf, bydd prif wasanaethau'r Sul ar y podlediadau. Felly, bydd y gwasanaeth yn yr eglwys yn ychwanegol at y rhai a geir yn rhithiol ar y we. Yn ail, oherwydd y canllawiau llym, ni fydd modd i unrhyw un barcio ar dir yr eglwys. Nid yw'r adnoddau dynol gennym i sicrhau ymbellhau cymdeithasol ar y glaswellt, y llain barcio nag oddi mewn i'r adeilad ar yr un pryd. Mae parcio yn y Cilgant yn rhad ac am ddim tan 10.00am.

Beth i'w ddisgwyl wrth ddod i EDS yn ystod y cyfnod hwn o ymbellhau cymdeithasol
Bydd y gwasanaeth yn para am oddeutu hanner awr. Ni fyddwn yn canu ac ni fydd llyfrau gwasanaeth ar gael. Bydd trefn y gwasanaeth ar daflen a gobeithir darparu cerddoriaeth gan

ddefnyddio'r piano. Mae defnyddio organ bîb mewn gwasanaethau cyhoeddus yn anghyfreithlon ar hyn o bryd.

1. Bydd angen i chi roi gwybod o flaen llaw eich bod yn bwriadu dod i'r gwasanaeth.
Oherwydd rheolau ymbellhau cymdeithasol, mae'r nifer y gall yr adeilad ei ddal wedi gostwng o dros 200 i **16/22.** Oherwydd y cyfyngiad sylweddol hwn, bydd yn hanfodol i chi roi gwybod o flaen llaw eich bwriad o ddod i wasanaeth; y cyntaf i'r felin gaiff falu! Mae hyn yn beth dieithr iawn, ond unwaith fydd y seddi wedi'u llenwi, ni fydd hawl gennym i adael i unrhywun arall ddod i mewn i'r adeilad**. Felly anfonwch neges at Marian Fairclough, ysgrifennydd y CPE naill ai drwy e-bost neu dros y ffôn (e-bost: faircloughmarian@gmail.com; rhif ffôn: 029 2088 5151) erbyn 4pm ar y Sadwrn cyn y Sul os ydych yn bwriadu dod i'r gwasanaeth.** Mae'n bwysig hefyd eich bod yn ein hysbysu os ydych yn dod ar eich pen eich hun ynteu gyda'ch teulu. Bydd Marian yn cadarnhau bod sedd/i wedi ei chadw i chi. Os bydd yr holl seddi wedi'u llenwi byddwch yn cael cynnig i fynd ar restr y Sul canlynol.

2. Cofiwch gadw eich pellter.
Cofiwch, ar bob adeg, oddi mewn ac oddi allan i'r eglwys, gadw pellter o ddau fedr (saith troedfedd) rhyngoch a'ch cyd-addolwyr. Mae dau fedr yn fwy nag ydych yn ei ddychmygu! Bydd marciau ar y llawr i'ch helpu.

3. Dewch i'r Eglwys mewn da bryd.
Cofiwch gyrraedd yr eglwys mewn da bryd **cyn dechrau'r gwasanaeth**. Efallai y bydd yn rhaid i chi giwio tu allan i'r adeilad. Byddwn yn gadael i chi ddod i mewn pan fydd y person o'ch blaen wedi cael ei dywys i'w sedd.

4. Dilynwch y system unffordd o amgylch yr eglwys.
Bydd system unffordd o amgylch yr eglwys, a bydd arwyddion ar y llawr i ddangos y ffordd i chi. Byddwch yn dod i mewn trwy brif borth yr eglwys ac yn mynd allan trwy borth y neuadd.

5. Cofiwch ddiheintio eich dwylo wrth ddod i mewn i'r eglwys.
Wrth gerdded trwy'r porth, bydd croesawydd a fydd yn gwisgo mwgwd/ fiswr a menig yno i'ch croesawu a bydd yn gofyn i chi ddefnyddio'r hylif diheintio dwylo a ddarperir ar eich cyfer. Bydd hefyd yn cadarnhau bod eich enw ar y rhestr o seddi cadw neu yn cymryd eich enw a'ch manylion cyswllt a'u hychwanegu at y rhestr rhag ofn y bydd angen dilyn canllawiau **Profi, Olrhain, Diogelu** Llywodraeth Cymru. *(Byddwn yn trin eich data personol yn unol â chanllawiau ein Polisi Diogelu Data ac ni fyddwn yn cadw'r wybodaeth yn hirach na 21 diwrnod).*

6. Byddwch yn cael eich tywys i'ch sedd.
Bydd ail groesawydd yn eich tywys i'ch sedd. Ni fydd modd i chi ddewis eich sedd; mae'n rhaid inni ddilyn trefn arbennig wedi i bobl ddod i mewn i'r adeilad.

7. Gadewch yr Eglwys trwy'r neuadd.
Wrth adael yr eglwys, gofynnir i chi fynd trwy'r neuadd. Bydd y rhai sy'n eistedd agosaf at ddrws (ochr ogleddol) y neuadd yn gadael yn gyntaf. Bydd y croesawyr ar gael i'ch tywys.

8. Cofiwch ddiheintio eich dwylo cyn gadael yr Eglwys.

Wrth adael yr adeilad, gofynnir i chi ddefnyddio'r hylif diheintio dwylo a fydd yn y neuadd ar y ffordd allan.

Gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid.
Nid fydd pob gwasanaeth yn wasanaeth Cymun. Caiff pob gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid ei hysbysu yn y daflen wythnosol y Sul blaenorol.

1. Ni chaniateir rhannu'r tangnefedd trwy gyffyrddiad corfforol.
Ni fyddwn yn rhannu'r tangnefedd trwy ysgwyd llaw.

Bydd yr offeiriad yn paratoi'r allor gan ddilyn y cyfarwyddiadau hylendid. Bydd yn defnyddio diheintydd dwylo ac yn gwisgo fiswr/mwgwd pan fydd wrth yr allor. Bydd y bara yn cael ei gysegru mewn *ciborium*: llestr sydd â chlawr iddo.

2. Gweinyddu'r Cymun
Gweinyddir y bara yn unig. Bydd yr offeiriad yn gweinyddu'r Cymun i chi yn eich sedd. Bydd y bara yn cael ei ollwng i'ch dwylo heb yngan gair.

Nodiadau Cyffredinol

Ni fydd te a choffi ar ôl y gwasanaeth.

NODER: NI fydd modd i chi ddefnyddio'r toiledau yn ystod y cyfnod hwn, **oni bai bod gwir argyfwng**.

Mae croeso i chi wisgo mwgwd neu fiswr yn ystod y gwasanaeth, er nad oes unrhyw gyfarwyddyd gan yr Eglwys yng Nghymru na chwaith gan Lywodraeth Cymru sy'n dweud ei bod hi'n hanfodol i chwi wneud hynny.

Gwn fod hyn oll yn hynod o gymhleth ac ychydig yn chwithig. Fel Eglwys, yr ydym yn dysgu sut i ddefnyddio'r adeilad a chynnal ein gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn o ymbellhau cymdeithasol. Gyda threigl amser byddwn yn datblygu ein harfer da ac yn cyfarwyddo â dulliau gwahanol yn unol ag unrhyw newidiadau yng nghanllawiau'r Eglwys yng Nghymru. Wrth edrych i'r dyfodol agos, mae'n debyg y bydd yn rhaid ni ddysgu sut i addasu pob agwedd o'n bywydau i'r cyfyngiadau a achoswyd gan y Coronafeirws. Dydi bywyd yr eglwys ddim yn eithriad.

Hoffwn danlinellu eto mai **ar y podlediadau fydd y prif wasanaethau ar y Sul**. Mae'r gwasanaeth yn yr eglwys ar y Sul ar gyfer y rhai ohonoch sydd wedi ystyried y risg yn ofalus ac yn awyddus i addoli yn yr eglwys gan ei bod hi bellach yn gyfreithlon i wneud hynny.

Yr eiddoch yn gywir,

Y Parchedig Dyfrig Lloyd

7th August 2020

(Cymraeg Uchod)

Reopening the Church for Public Worship during this time of social distancing.

Dear Friends,

I am pleased to announce that we have received permission from the Archdeacon to reopen the church for public worship once again. The first service will be held on Sunday 9th August for members of the Parochial Church Council only to ensure that all our systems are working safely before holding our first public service on **Sunday 16th of August**. The guidelines and instructions we are required to follow to reopen are extensive and restrictive. In this letter I set out some of these guidelines as we prepare to welcome worshippers back to church.

During this time of social distancing the main Sunday services will continue to be the podcasts and the weekly bulletin, so please do not feel under any pressure to come to church, nor feel guilty if you decide to stay at home on Sundays. If you have been advised to self-isolate, or if you have any cold like symptoms or are feeling unwell, I kindly ask that you stay at home. Your health and the health of your family comes first. The coronavirus has not disappeared, and as a church we cannot totally negate all risk. You will have to **consider carefully** whether or not it is appropriate for you to attend a service in church at this time.

It is now lawful to hold services in church under very strict and stringent guidelines set by the Welsh Government and the Church in Wales, and it is vital that all who attend church follow these. The experience of worshipping in church will be very different to that before the lockdown.

One service will be held at 9.00am on Sundays. There are two reasons for this change in time. First, the main Sunday services will continue to be the podcasts and the devotional weekly bulletin. The service in church will be an addition to those that are already provided virtually. Second, because of the restrictions, no parking is permitted on the grass around church during service times. We do not have the human resources to ensure social distancing on the grass, the small paved parking area and in the building all at the sometime. Parking in the crescent is free until 10.00am.

What to expect when you come to EDS during this time of social distancing.
The service will last about half an hour. There will be no singing and no service books. An order of service will be provided on a leaflet and it is hoped to use the piano for music. At present it is unlawful to use a pipe organ in public worship.

1. Please let us know if you intend to come to a service.
Because of the social distancing rules, the capacity of the building has been drastically reduced from 200 to **16/22**. For this reason it is advisable that you let us know beforehand that you are

coming; this will on a first come, first serve basis. This is all very un-Anglican, but once all the available seats are filled we will not be permitted to allow anyone else into the building. **Please send a message to Marian Fairclough, the PCC secretary either by telephone or through email (email: faircloughmarian.com; telephone: 029 2088 5151) by 4pm on the Saturday before the Sunday if you intend to come to the service**. It is also important to let us know whether you intend coming by yourself or a family unit. Marian will then confirm that a seat has been kept for you. If all the seats have been filled, you will be given the offer of going on the list for the following Sunday.

2. Please remember to keep your distance.
Remember, at all times, whether inside the church or outside, to keep a distance of 2meters (7 feet) apart from your fellow worshipper. 2meters is more than you think! There will be markings on the floor to help.

3. Please come to church in good time.
Remember to come to church in good time before the start of the service. You may be required to queue outside the building. We will let you in when the person in front of you has been taken to his seat.

4. Please follow the one-way system.
There will be a one-way system around church with signs on the floor to show you the way. You will come in through the main door and out through the hall door.

5. Please sanitize your hands on entering the church.
As you walk in through the main door, a steward wearing a mask/visor and gloves will welcome you and ask you to use the hand sanitizer provided. Your name and contact details will be confirmed on the list of kept seats/ or your name and contact details will be added to the list in case we will be required to follow the Welsh Government's **Test, Trace and Protect** procedure. *(We will treat your personal data in accordance to our Data Protection Policy and we will not keep your information for more than the required 21 days).*

6. You will be taken to your seat.
A second steward will take you to your seat. You will not be able to choose your seat; we have to follow a particular order as people come in.

7. Please leave the church through the hall
As you leave the church, we ask you to go through the hall. Those sitting nearest the hall door (north side) will leave first. The stewards will be on hand to help.

8. Please sanitize your hands before leaving the church.
Hand sanitizer will be provided for you as you leave the church.

Services of Holy Communion.

Not all services will be a service of Holy Communion. Each service of Holy Communion will be advertised in the church bulletin the Sunday before.

1. The sharing of a physical peace is not permitted e.g. shaking hands.

2. The Priest will prepare the altar following the stringent hygiene guidelines. The priest will use hand sanitizer and wear a visor. The bread will be consecrated in a ciborium: a vessel with a lid to it.

3. Only the bread will be administered. The priest will come to you to administer communion in your seat. The bread will be dropped into your hands without any spoken words.

General Notes

There will be no tea and coffee after the service.

NOTE: The toilets will not be available during this time, unless it is an emergency.

You're welcome to wear a mask or visor during the service, though at present there is no requirement by the Church in Wales nor the Welsh Government for you to do so.

I know all this sounds very onerous and quite strange. As a Church, we are learning how to use the building and conduct services during this time of social distancing. With time we will develop our good practice and change our procedures in line with any changes in the Church in Wales guidelines. As we look to the near future, it is likely that we will all have to adapt every aspect of our lives as a result of the Coronavirus. The life of the church is no exception.

I would like to underline again that the main services on Sunday will be the podcasts/ weekly bulletin. The Sunday morning service in church is for those who have carefully considered the risk and are comfortable to worship in church now that it is lawful so to do.

Yours sincerely, with every blessing,

The Reverend Dyfrig Lloyd.